Contact The Campaign for the Children and Young People Assembly
for Wales
National Youth Agency
Plant yng nghymru - Children in Wales
UK Youth
Council for Wales voluntary Youth Services
Wales Council for Voluntary Youth Action
Youth United Foundation
Action for Children
British Youth Council
Anabledd Dysgu Cymru/Learning Disability Wales
Childrens commissioner wales
YFC Wales

Businesses

Associated British Ports
Atkins Global
BAM Nuttall Ltd
British Water
Canal and Rivers Trust

Chartered Institute of Housing
Clee Tompkinson and Francis
Coal Authority
Common Vision
Community Housing Cymru
Community land advice
Confederation of British Industry
Constructing Excellence in Wales
Crown Estate
Denbighshire County Council
DM Property consultats
Dwr Cymru
Dwr Cymru
ehlaw
Energy Savings Trust
Ffos Las Racecourse
Fjord Horse
Freightliner
Friends of the Earth Cymru
Landscape Institute
Llanishen Reservoir Action Group
Lloyds Bank PLC
Mid & West Wales Fire and Rescue Service
Mineral Products Association
MOD
National Sewerage Association
OFTEC
Oil Firing Technical Association Ltd (OFTEC)
RICS Wales
Royal Town Planning Institute
Scottish Government
Seven Rivers Trust
The Oil Specialists
Tir Enterprises
United Utilities
University of Bangor
Welsh Local Government Association
Coleg Sir Gar
Coleg Cambria
Edward Perkins Chartered Surveyors
IOSH (Institute of Occupational Safety and health)
TCS Management
Country land and business association

Disabilities

Disability Wales
Action on hearing Loss

All Wales People First
Cardiff & Vale Coalition of Disabled People
British Deaf Association Wales
Leonard Cheshire Trust
British Dyslexia Association
Disability Advice Project (Torfaen)
Communication Matters
Disability Powys
DiverseCymru
Employers Forum on Disability
Equality and Human Rights Commission
Epilepsy Wales
Learning Disability Wales
Mind Cymru
North Wales Deaf Association
Wales Council for Deaf People
Swansea disability forum
Scope
Disability Arts Cymru
Gofal Cymru
Mencap Cymru
National Deaf Childrens Society Wales
North Wales Deaf Association
RNIB
Wales council for the Blind

Gender/sexuality

LGBT Consortium
A:Gender
Unique Transgender network
Stonewall Cymru
Unity Group Wales

Women

Career Women Wales
Chwarae Teg
UNIFEM in Wales
BAWSO
Mewn Cymru
Wales resource centre for women in science, engineering and technology
Welsh assembly of women
Welsh womens aid
Women connect first
Women on Boards
Cymorth I Ferched Cymru Welsh Womens Aid
Women in Wales
WEN Wales

North Wales Womens Network
Womens Food and Farming Union
Wales Women in Agriculture Forum (through Menter a Busnes)
Women in property
Womens engineering society
WiRE (Women in rural enterprise)

Elderley

Age cymru
Older Peoples commissioner for wales
Age concern cardiff

Poverty

Joseph Rowntree Foundation
Bevan Foundation
National Energy Action Wales

General

Workplace Report Magazine
Oxfam Cymru
Participation cymru
WRAP Wellness Recovery Action Plan
Equality and Human Rights Commission
British Red Cross South Wales
BTCV - British Trust for Conservation Volunteers
Carers Wales / Cynhalwyr Cymru
CATCH-UP - Co-operative Action to Change & Hurry Up Progress
CCF - Cardiff Communities First
MENFA - Mentoring for All
LDW - Learning Disability Wales
Journey - Depression Alliance Cymru
Duffryn Community Link
SOVA - Supporting Others Through Volunteering Action

Agriculture

Defra
Dept for BIS
Devons Cattle Society
Dyfi Biosphere
Elan Valley Trust
Environment Agency
Eryri National Park
Farming and Countryside Education
Forest Research
Forestry Commission Wales
Future Farmers
FUW
FUW
FWAG

Horticulture Wales
HSBC Agriculture
Hybu Cig Cymru/Meat Promotion Wales
IBERS
IBERS
Institute of Chartered Foresters
Landex (Land Based Colleges Aspiring to Excellence)
Lantra
Llais Y Goedwig
Maelor Forest Nurseries Ltd
Menter a Busnes
Menter Mon
National Beef Association
Natural Resources Wales
National Trust
NFU Cymru
NFU
NFU Mutual Senior Agent
NPTC College Group
OCW
Pembrokeshire Coast
Pembrokeshire NPA
PINS
Powys County Council
RHSMR Mottershead
RSPB
RWAS
Santander
Sustainable Farming Consultant
TFA
Unite Union
Visit Wales
Wales Environment Link
Wales Wildlife and Countryside Trust
Water Regulations Advisory Service
Wales Rural Observatory
Wales Tourism Alliance
Watts and Morgan
Welsh Black Cattle Society
Welsh Lamb and Beef Promotions
West Wales European Centre
Wildfowl and Wetlands Trust
Wildlife Trusts Wales
WLGA
WWF Cymru
Wye and Usk Foundation

Whittingham Riddell
Lusitanos
Farmers Welsh lavender Ltd
Aberdeen Angus Cattle Society
ADAS
Agricultural Business
APHA
Archaeological Trust
Association of National Parks
Brecknock Wildlife Trust
Brecon Beacons National Park
British Blonde Society
British Blue cattle Society
British Limousin Cattle Society
British Simmental Cattle Society
British Veteran Association
Brown Swiss cattle society
BWW Management Planner Forum
CAAV
CADW
Campaign for the Protection of Rural Wales
Carmarthen Bay and Estuaries
Carmarthen Rivers Trust
CBI
CCFG (Continuous Cover Forestry Group)
Celtic Ecology
Centre for Alternative Technology
CLA
Coastal Zone and Marine Environment Research Unit
Country Land and Business Association
Cynnal Cymru
DARDNI
Dartmoor Society
Dairy Co
Dairy Development Centre (DDC)
Dairy Strategy group
DEFRA
Dept for BIS
Devons Cattle Society
Dyfi Biosphere
Elan Valley Trust
Environment Agency
Eryri National Park
Farming and Countryside Education
Forest Research
Forestry Commission Wales

Future farmers
FUW
FWAG
Horticulture Wales
HSBC Agriculture
Hybu Cig Cymru/Meat Promotion Wales
IBERS
Institute of chartered foresters
Landex (Land based colleges aspiring to excellence)
Lantra
Llais Y Goedwig
Maelor Forest Nurseries Ltd
Mentor a busnes
Menter Mon
National beef Association
Natural Resources Wales
National Trust
NFU Cymru
NFU Mutual Senior Agent
NPTC College Group
OCW
Pembrokeshire Coast
Pembrokeshire NPA
PINS
Powys County Council
Public health Wales
RHSMR Mottershead
RSPB
RWAS
Santander
Sustainable Farming Consultant
TFA
UNITE
Visit Wales
Wales Environment Link
Wales Wildlife and Countryside Trust
Water Regulations Advisory Scheme
Wales Rural Observatory
Wales Tourism Alliance
Watts and Morgan
Welsh black Cattle society
Welsh lamb and Beef Promotions
West Wales European centre
Wildfowl and Wetlands Trust
Wildlife Trust Wales
WLGA

WWF Cymru
Wye and Usk Foundation
Whittingham Riddell
Lusitanos
Focus on Labour Exploitation (FLEX)
Recruitment and Employment Confederation (REC)
The Association of Professional Staffing Companies (APSCo)
The Freelancer and Contractor Services Association (FCSA)
Resolution Foundation (RF)
Centre for Social Justice (CSJ)
UNISON
Association of Labour Providers (ALP)
Confederation of Business Industry (CBI)
British Retail Consortium (BRC)
Joseph Rowntree Foundation (JRF)
Federation of Small Businesses (FSB)
Trades Union Congress (TUC)



Ein cyf/Our ref MA-L/LG/0121/18

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

29 Mawrth 2018

Annwyl Elin,

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018

Yn unol â'r canllawiau, rwyf yn eich hysbysu, yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y bydd y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri wrth gyflwyno'r Gorchymyn uchod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol er gwybodaeth ichi.

Y Cefndir

Sefydlwyd y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth (y Panel) ar 1 Ebrill 2016 o dan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. Mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys adolygu cyflogau ac amodau cyflogaeth eraill a hefyd gefnogi gwaith i feithrin sgiliau a datblygu gyrfa yn y sector amaethyddol.

Ar hyn o bryd mae gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r cyfraddau a bennir gan Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017.

Penderfynodd y Panel gynyddu cyflogau ar gyfer gweithwyr amaethyddol ac ymgynghorodd am y cynigion yn ystod hydref 2017. Roedd amserlen wreiddiol y Panel yn cynnig bod y Gorchymyn newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill, sef y dyddiad y bydd y cynnydd i Gyflog Byw Cenedlaethol y DU a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn cael ei weithredu. Bydd cyfraddau cyflog newydd ar gyfer gweithwyr amaethyddol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dod i rym ar y diwrnod hwnnw hefyd. Nod y Panel yw sicrhau bod y cynnydd yn isafswm cyflog

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gweithwyr amaethyddol yn cyd-fynd â'r newidiadau i'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Cyhoeddwyd codiadau uwch na'r disgwyl i gyfraddau'r Cyflog Byw Cenedlaethol/Isafswm Cyflog Cenedlaethol ddiwedd mis Tachwedd. Roedd hynny'n golygu bod angen ailedrych ar y cyfraddau lleiaf y bwriedid eu cynnwys yn Neddf Cyflogau Amaethyddol 2018. Er ein bod wedi gwneud pob ymdrech i weithredu ar fyrder ni fu unrhyw gyfaddawdu o safbwynt ystyriaeth.

Hyd nes y daw Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018 i rym, ni fydd gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn cael y codiad arfaethedig i'r cyfraddau lleiaf nac ychwaith y cynnydd arfaethedig i rai lwfansau.

Er mwyn sicrhau bod hyn yn amharu cyn lleied â phosibl ar bobl, ac er mwyn sicrhau hefyd fod gweithwyr yn cael eu talu yn unol â'r cyfraddau a gynigir gan y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth, cynigir bod yr Offeryn Statudol yn torri'r rheol 21 diwrnod.

Bydd torri'r rheol 21 diwrnod yn sicrhau cyn lleied o oedi â phosibl wrth gyflwyno'r cyfraddau cyflog newydd y cytunwyd arnynt a bydd hefyd yn sicrhau amodau cyflogaeth teg a thâl teg i weithwyr amaethyddol yng Nghymru. Bernir bod angen torri'r rheol 21 diwrnod a bod modd cyfiawnhau hynny yn yr achos hwn oherwydd y bydd yn lleihau'r oedi o ran cynyddu'r cyfraddau lleiaf ar gyfer cyflogau gweithwyr amaethyddol ac o ran cynyddu cyfraddau rhai lwfansau.

Byddai unrhyw oedi yn cosbi'r gweithwyr amaethyddol hynny a fyddai'n cael cyfraddau tâl is nag y byddent wedi disgwyl eu cael o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi, ac fe'i gosodwyd ef a'r Gorchymyn wedi'i gosod yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at Chris Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yr eiddoch yn gywir,



Julie James AC/AM

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Eich.cyf / Your ref :

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

SL(5)208 - Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018

Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018 ("Gorchymyn 2018") yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfraddau tâl isaf a'r telerau a'r amodau cyflogaeth eraill i weithwyr amaethyddol.

Mae Gorchymyn 2018 yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017 ("Gorchymyn 2017") gyda newidiadau sy'n cynyddu lefelau cyflog 2017 ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

Y weithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodwyd dau bwnt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - mae angen eglurhad pellach ar ystyr yr offeryn.

Yn gryno, mae erthygl 15(1) yn dweud, pan fo cyflogwr yn darparu tŷ i weithiwr amaethyddol, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £1.50 oddi ar isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol.

Yn gryno, mae erthygl 15(2) yn dweud, pan fo cyflogwr yn darparu "llety arall" i weithiwr amaethyddol, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £4.82 oddi ar isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol.

Ymddengys fod didyniad o £4.82 yr awr yn ddiidyniad mawr iawn o ystyried y cyfraddau fesul awr sy'n berthnasol i weithwyr amaethyddol. Felly, byddem yn gwerthfawrogi: (1) cadarnhad o p'un a yw ein dealltwriaeth o erthyglau 15(1) a 15(2) yn gywir, a (2) rhagor o wybodaeth am ddarparu "llety arall" a'r didyniad a ganiateir o dan erthygl 15(2).

2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ymddengys fod anghysondeb rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Mae Erthygl 43(2) yn y Gymraeg yn gwneud trefniadau trosiannol ar gyfer "gweithiwr amaethyddol a gyflogir fel gweithiwr ar Radd neu fel prentis ond nid fel gweithiwr hyblyg".

Mae Erthygl 43(2) yn y Saesneg yn gwneud trefniadau trosiannol ar gyfer "gweithiwr amaethyddol a gyflogir fel gweithiwr ar Radd neu fel prentis". Felly, yn y Saesneg nid oes sôn am weithwyr hyblyg.

Craffu ar y rhinweddau

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – mae'r offeryn o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu mae'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch pam na wnaed y Gorchymyn 2018 hwn tan 27 Mawrth 2018 ac na chafodd ei osod tan ar ôl 16.00 ar 29 Mawrth 2018 (Dydd Iau'r Gofid), yn enwedig o gofio ei ddyddiad dod i rym ar 1 Ebrill 2018 (Dydd Sul y Pasg).



Nodwn y cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod hydref 2017, ac y cafodd y newidiadau yn y cyfraddau cyflogau sylfaenol a byw cenedlaethol eu gwneud ddiwedd mis Tachwedd 2017 a arweiniodd at adolygiad. Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch pam y cymerodd dros bedwar mis i adlewyrchu'r adolygiad mewn Gorchymyn terfynol 2018.

Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ynghylch pam na chawsom ein hysbysu'n ffurfiol cyn y problemau gyda'r Gorchymyn hwn o ystyried bod torri'r rheol 21 diwrnod wedi digwydd ar 9 Mawrth 2018.

Yn ogystal â materion o ran amseru a chyfathrebu, teimlwn hefyd yr angen i fynegi'r pryder hwn oherwydd bod gorchymyn y llynedd (h.y. Gorchymyn 2017) hefyd wedi torri'r rheol 21 diwrnod, pan gafodd ei wneud ar 2 Tachwedd 2017 ac y daeth i rym ar 3 Tachwedd 2017.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

12 Ebrill 2018



Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog

17 Ebrill 2018

Annwyl Brif Weinidog

Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Ysgrifennaf mewn perthynas ag adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("yr adroddiad") ar **Graffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** ("y Bil").

Yn benodol, hoffwn godi materion yn ymwneud â'ch llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 5 Chwefror; y ddatl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad ar 7 Mawrth, yr ymateb ffurfiol i'r adroddiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip dyddiedig 27 Mawrth, a'ch llythyr dyddiedig 29 Mawrth at Ysgrifennydd Gwladol Cymru sy'n ymwneud â'r adroddiad ar y Bil a darpariaethau ei bwyllgor sifftio.

Byddwch yn ymwybodol bod ein hymchwiliad a'r adroddiad dilynol yn ystyried pa mor briodol yw cwmpas a natur y pwerau dirprwyedig a ddarperir yn y Bil i Weinidogion y DU a Chymru, a'r gweithdrefnau i'w defnyddio i graffu ar y ddeddfwriaeth ddirprwyedig honno. O ystyried taith y Bil drwy Dŷ'r Arglwyddi, roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar welliannau y credem y dylid eu gwneud i'r Bil, ac yn mynd i'r afael â chwestiynau a godwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn llythyr at y Llywydd ar 16 Ionawr.

Gwnaeth ein hadroddiad saith argymhelliad, pedwar ohonynt yn argymell gwelliannau i'r Bil. Am y rheswm hwnnw, credem ei fod yn briodol gofyn barn y Cynulliad Cenedlaethol ar yr argymhellion hynny, ac roedd y cynnig yn gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol nodi adroddiad y pwyllgor hefyd yn gofyn iddo gymeradwyo argymhellion 1, 2, 4 a 7.



Ar 7 Mawrth, derbyniwyd y cynnig yn ddiwrthwynebiad a rhoddodd y Cynulliad Cenedlaethol gefnogaeth unfrydol i'r argymhellion hynny. O ganlyniad, ar 22 Mawrth, ysgrifennodd y Llywydd at Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan dynnu ei sylw at yr argymhellion hynny a gofyn iddo dderbyn y llythyr fel hysbysiad ffurfiol o safbwynt Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran pa welliannau y dylid eu gwneud i'r Bil mewn perthynas â gweithdrefnau ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan ei ddarpariaethau.

Yn wyneb y digwyddiadau a'r ohebiaeth yr wyf yn cyfeirio atynt uchod, hoffwn ofyn am eglurhad gennych am y rhesymau dros yr ymagwedd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i mabwysiadu. Yn benodol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio pam, ar ôl i chi ddweud yn eich llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol ar 5 Chwefror mai'r Cynulliad Cenedlaethol oedd i benderfynu ar faterion yn ymwneud â'r pwyllgor sifftio, y gwnaethoch ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedyn ar 29 Mawrth yn gwrthod argymhelliad a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â gweithrediad y pwyllgor sifftio hwnnw. Roedd y gymeradwyaeth honno gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unfrydol ac yn cynnwys cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Rwy'n cydnabod bod Arweinydd y Tŷ wedi dweud wrth y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn nad yw Llywodraeth Cymru am fynegi ei safbwynt ar argymhelliad 2 nes ei bod wedi ystyried y mater yn drylwyr. Fodd bynnag, nid oedd Arweinydd y Tŷ wedi gofyn am ddiwygio'r cynnig i adlewyrchu'r safbwynt hwnnw, a gafodd, fel y nodwyd yn flaenorol, ei gymeradwyo'n unfrydol.

Heb niweidio ewyllys unrhyw Lywodraeth, ni ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ganfod ei hun mewn sefyllfa lle mae'n mynegi safbwynt hollbleidiol, ffurfiol sydd wedi hynny, ac yn fuan iawn wedyn, yn destun amheuaeth mewn gohebiaeth nad yw'r Cynulliad yn ymwybodol ohoni. Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, fel pwyllgor, yr ydym yn bryderus yn gyffredinol ynglŷn â throsglwyddo pŵer o ddeddfwrfeydd i adrannau gweithredol. Mae'r ymagwedd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i mabwysiadu ar y materion hyn yn tanseilio hawl y ddeddfwrfa.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn gynted â phosibl. Rwy'n ysgrifennu at y Llywydd ar wahân ynglŷn â'r mater hwn.



Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip;

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Elin Jones AC
Y Llywydd

17 Ebrill 2018

Annwyl Lywydd,

Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Amgaeaf gopi o lythyr yr wyf wedi'i anfon at y Prif Weinidog heddiw ynglŷn â phenderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar 7 Mawrth i gymeradwyo argymhellion 1, 2, 4 a 7 yn adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("yr adroddiad") ar **Graffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** ("y Bil"). Fe wnaethoch ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol ar 22 Mawrth yn rhoi gwybod iddo am benderfyniad y Cynulliad.

Mae ein pryderon wedi codi o ganlyniad i lythyrau'r Prif Weinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 5 Chwefror a 29 Mawrth, yn ogystal â'r ymateb ffurfiol i'r adroddiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, dyddiedig 27 Mawrth. Er hwylustod, gellir dod o hyd i'r ohebiaeth y cyfeirir ati fel atodiadau i'r llythyr hwn.

Rydym o'r farn bod y materion a amlinellir yn y llythyr at y Prif Weinidog yn codi pryderon cyfansoddiadol difrifol, gan ei bod yn ymddangos bod hawl y ddeddfwrfa yn cael ei thanseilio. Dyna pam y credaf ei bod yn briodol dod â'r ohebiaeth hon i'ch sylw.

Yn gywir,



Mick Antoniw

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English



Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog

17 Ebrill 2018

Annwyl Brif Weinidog

Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Ysgrifennaf mewn perthynas ag adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("yr adroddiad") ar **Graffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** ("y Bil").

Yn benodol, hoffwn godi materion yn ymwneud â'ch llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 5 Chwefror; y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad ar 7 Mawrth, yr ymateb ffurfiol i'r adroddiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip dyddiedig 27 Mawrth, a'ch llythyr dyddiedig 29 Mawrth at Ysgrifennydd Gwladol Cymru sy'n ymwneud â'r adroddiad ar y Bil a darpariaethau ei bwyllgor sifftio.

Byddwch yn ymwybodol bod ein hymchwiliad a'r adroddiad dilynol yn ystyried pa mor briodol yw cwmpas a natur y pwerau dirprwyedig a ddarperir yn y Bil i Weinidogion y DU a Chymru, a'r gweithdrefnau i'w defnyddio i graffu ar y ddeddfwriaeth ddirprwyedig honno. O ystyried taith y Bil drwy Dŷ'r Arglwyddi, roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar welliannau y credwn y dylid eu gwneud i'r Bil, ac yn mynd i'r afael â chwestiynau a godwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn llythyr at y Llywydd ar 16 Ionawr.

Gwnaeth ein hadroddiad saith argymhelliad, pedwar ohonynt yn argymhell gwelliannau i'r Bil. Am y rheswm hwnnw, credem ei fod yn briodol gofyn barn y Cynulliad Cenedlaethol ar yr argymhellion hynny, ac roedd y cynnig yn gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol nodi adroddiad y pwyllgor hefyd yn gofyn iddo gymeradwyo argymhellion 1, 2, 4 a 7.



Ar 7 Mawrth, derbyniwyd y cynnig yn ddiwrthwynebiad a rhoddodd y Cynulliad Cenedlaethol gefnogaeth unfrydol i'r argymhellion hynny. O ganlyniad, ar 22 Mawrth, ysgrifennodd y Llywydd at Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan dynnu ei sylw at yr argymhellion hynny a gofyn iddo dderbyn y llythyr fel hysbysiad ffurfiol o safbwynt Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ba welliannau y dylid eu gwneud i'r Bil mewn perthynas â gweithdrefnau ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan ei ddarpariaethau.

Yn wyneb y digwyddiadau a'r ohebiaeth yr wyf yn cyfeirio atynt uchod, hoffwn ofyn am eglurhad gennych am y rhesymau dros yr ymagwedd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i mabwysiadu. Yn benodol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio pam, ar ôl i chi ddweud yn eich llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol ar 5 Chwefror mai'r Cynulliad Cenedlaethol oedd i benderfynu ar faterion yn ymwneud â'r pwyllgor sifftio, y gwnaethoch ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedyn ar 29 Mawrth yn gwrthod argymhelliad a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â gweithrediad y pwyllgor sifftio hwnnw. Roedd y gymeradwyaeth honno gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unfrydol ac yn cynnwys cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Rwy'n cydnabod bod Arweinydd y Tŷ wedi dweud wrth y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn nad yw Llywodraeth Cymru am fynegi ei safbwynt ar argymhelliad 2 nes ei bod wedi ystyried y mater yn drylwyr. Fodd bynnag, nid oedd Arweinydd y Tŷ wedi gofyn am ddiwygio'r cynnig i adlewyrchu'r sefyllfa honno, a gafodd, fel y nodwyd yn flaenorol, gymeradwyaeth unfrydol.

Heb niweidio ewyllys unrhyw Lywodraeth, ni ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ganfod ei hun mewn sefyllfa lle mae'n mynegi safbwynt hollbleidiol, ffurfiol sydd wedi hynny, ac yn fuan iawn wedyn, yn destun amheuaeth mewn gohebiaeth nad yw'r Cynulliad yn ymwybodol ohoni. Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, fel pwyllgor, yr ydym yn bryderus yn gyffredinol ynglŷn â throsglwyddo pŵer o ddeddfwrfeydd i adrannau gweithredol. Mae'r ymagwedd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i mabwysiadu ar y materion hyn yn tanseilio hawl y ddeddfwrfa.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn gynted â phosibl. Rwy'n ysgrifennu at y Llywydd ar wahân ynglŷn â'r mater hwn.



Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip;

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Ein cyf/Our ref: MA-L/FM/0044/18

Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales
Gwydyr House
London
SW1A 2NP

5th February 2018

Dear Alun

I am writing in response to your letter of 16 January, in respect of the European Union (Withdrawal) Bill.

I was very disappointed that there were no agreed amendments to Clause 11 during Commons consideration, but I note your commitment to bring forward amendments in the House of Lords. It is of course essential that these amendments are agreed with the Welsh and Scottish Governments, and I know that discussions at official level are continuing.

I also note the Government amendments to clauses 7 and 10. I welcome the replacement of the requirement for consent of UK Ministers with a requirement for consultation in relation to the powers in clause 7, although I note that the same amendment has not been made in clauses 8 and 9, and I am not clear about the reasoning for the retention of these restrictions. (I am in any event aware of the House of Lords Constitution Committee's recommendation that clause 9 be omitted from the Bill). I also welcome the amendments enabling Welsh Ministers to modify directly applicable EU law in areas of devolved competence, although I also note they are based on an assumption that Clause 11 will continue in its current form, which will not be acceptable to the Welsh Government or to the Assembly; the official level discussions must produce a better solution.

I have considered the specific questions in your letter in respect of the Committee stage amendments of the Bill. In respect of the statutory requirement to produce explanatory material alongside SIs made under the relevant powers in Schedule 2 of the Bill, the information envisaged to be included in the statements is material that we would expect to provide in any event. I therefore have no strong view as to whether such a requirement should be placed on the face of the Bill; but I am aware that the Constitution Committee has made further recommendations about the content of supportive explanatory material. If the UK Government is minded to accept these, I will need to consider the Welsh position afresh. I would be grateful to be kept informed of your developing thinking in respect of that

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

recommendation, and in respect of the applicability of the requirements to SIs made under the joint procedure.

In respect of the requirement to submit negative resolution SIs to a 'sifting' committee, I consider that this is properly a matter for the National Assembly for Wales to determine, as is the applicability of this requirement to SIs made under the joint procedure.

In respect of the "made affirmative" procedure, our view is that in principle this should be available to Welsh Ministers and the Assembly, to match the flexibility available to UK Ministers.

Finally, our officials have also been discussing the correction of deficiencies in the Government of Wales Act 2006. I welcome the commitment to use Orders in Council to make correcting amendments which fall outside competence. I have considered the various means by which the small number of deficiencies which are within our competence might be corrected, and I believe the best solution in this case would be for the corrections to be made by the Withdrawal Bill. I have asked my officials to work with yours to develop the necessary amendments.

I am copying this to the Presiding Officer, the Chair of the Assembly's External Affairs and Additional Legislation Committee, the Chair of the Assembly's Constitutional and Legislative Affairs Committee and to the Chair of the Welsh Affairs Committee in Parliament.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Carwyn Jones', written in a cursive style.

CARWYN JONES



Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales
Gwydyr House
London
SW1A 2NP

29th March 2018

Dear Alun

I am writing in response to your letter of 16 March 2018 about changes to the European Union (Withdrawal) Bill. I note the summary of the changes you intend to make to the Bill at Lords Report, and the progress in respect of other matters, including the correction of within competence deficiencies in the Government of Wales Act 2006, the correction to the technical standards reservation, and your proposal in respect of enhanced explanatory material.

You raise a specific question in respect of the 'sifting committee' provisions, with reference to the recommendation of the Constitutional and Legislative Affairs Committee that the provisions should apply to instruments laid before the Assembly, and that the sifting committee's recommendation on the appropriate procedure should be binding. The Welsh Government's view is that it would be appropriate for the sifting committee provisions as set out in the Bill to apply to instruments laid before the Assembly.

However, we are not persuaded that the recommendation made by the sifting committee should be binding. It is right that the exercise of delegated powers should be subject to appropriate and proportionate scrutiny and I expect that in the vast majority of cases Welsh Ministers will accept the recommendation of the sifting committee. However, there may be situations where – for reasons of urgency – Welsh Ministers will need to act more quickly than the affirmative procedure provides for, and it is essential the government retains the flexibility to do so, notwithstanding the recommendations of the sifting committee. We also believe there is a strong case for maintaining consistent arrangements between the National Assembly and the UK Parliament.

I can also confirm that we have no other proposed changes to the scrutiny arrangements for the Welsh Ministers' powers.

I am copying this letter to the Presiding Officer and to the Chair of the Assembly's Constitutional and Legislative Affairs Committee.

Yours sincerely

CARWYN JONES

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Julie James AC/AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/L/JJ/ 0198/18

Mick Antoniwn AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
CF99 1NA

27 Mawrth 2018

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi am ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i adroddiad diweddaraf y Pwyllgor ar yr archwiliad o'r rheolau a wneir o dan Bil yr Undeb Ewropeaidd (Hysbysu am Ymadael). Rwy'n amgáu tabl sy'n gosod allan ein hymateb i bob argymhelliad.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am eu gwaith ar y mater hwn.

Yn gywir,

Julie James AC / AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 129

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Craffu ar reoliadau a wneir o dan Fil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Nodyn cefndir - argymhellion ac ymateb drafft CLAC

Argymhelliad	Ymateb Drafft
<p>Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell y dylid ymestyn y dull sifftio sydd wedi'i gynnwys yn y Bil ar hyn o bryd i bob rheoliad a wneir o dan y Bil ac a osodir gerbron y Cynulliad. Rydym hefyd yn argymhell bod un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am wneud argymhelliad ynghylch y weithdrefn briodol ar gyfer y rheoliadau dan sylw.</p>	<p>CYTUNO: Mater i'r Cynulliad ei ystyried a chytuno arno â Llywodraeth y DU a Senedd y DU yw hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y dylai arfer pwerau dirprwyedig fod yn destun craffu priodol a chymesur. O ran y darpariaethau sy'n ymwneud ag arfer a chraffu ar bwerau dirprwyedig, rydym hefyd yn credu y dylai'r pwerau a'r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r rhai sy'n gymwys i Weinidogion y DU. Felly, byddai Llywodraeth Cymru'n fodlon i ofynion sifftio cyfatebol fod yn gymwys i offerynnau a osodir gerbron y Cynulliad ag i offerynnau a osodir gerbron Senedd y DU.</p>
<p>Argymhelliad 2. Dylai'r argymhelliad a wneir gan y pwyllgor sifftio o dan argymhelliad 1 fod yn orfodol, oni bai fod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu fel arall. Dylid adlewyrchu'r gofyniad hwn ar wyneb y Bil.</p>	<p>GWRTHOD: Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod mai mater i'r Cynulliad Cenedlaethol ei ystyried a chytuno ag ef â Llywodraeth y DU a Senedd y DU yn bennaf yw hwn. Er hynny, nid ydym yn argyhoeddedig y dylai'r argymhelliad a wneir gan y pwyllgor sifftio fod yn derfynol. Rydym yn cytuno y dylai arfer pwerau dirprwyedig fod yn destun craffu priodol a chymesur ac rydym wedi dangos ein hymrwymiad i graffu cadarn trwy'r dull gweithredu yr ydym wedi'i ddefnyddio yn y Bil LDEU. Rydym yn credu hefyd y bydd Gweinidogion Cymru yn y mwyafrif o achosion yn derbyn argymhelliad y pwyllgor sifftio y dylai set o reoliadau fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn negyddol. Er hynny, gallai fod sefyllfaoedd lle y gallai fod angen i Weinidogion Cymru weithredu'n gyflymach nag y mae'r weithdrefn gadarnhaol yn darparu ar ei gyfer - a hynny oherwydd rhesymau brys - ac mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn cadw'r hyblygrwydd i wneud hynny, er gwaethaf argymhellion y pwyllgor sifftio. Mae Llywodraeth Cymru'n credu hefyd fod achos o blaid cadw trefniadau cyson rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU, yn enwedig ar gyfer cyd-offerynnau ac offerynnau cyfansawdd lle y byddai</p>

Argymhelliad	Ymateb Drafft
	pwyllgorau sifftio'r Cynulliad a Senedd y DU yn gwneud argymhellion ar y weithdrefn briodol.
<p>Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod y meini prawf sifftio sydd wedi'u nodi ym mharagraff 35(b) o'r adroddiad hwn yn cael eu cymhwyso i'r holl reoliadau sy'n cael eu gwneud o dan y Bil ac a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, ac y dylid nodi'r meini prawf yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol.</p>	<p>GWRTHOD: Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd angen i'r pwyllgor sifftio gytuno ar y meini prawf i'w defnyddio ar gyfer cyflawni'r broses sifftio. Er hynny, bydd angen i'r meini prawf hyn fod yn gyson â'r fframwaith terfynol ar gyfer y mecanwaith sifftio, a bod angen i'r Cynulliad gadw rhywfaint o hyblygrwydd yn hyn o beth. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i darbwylo felly y dylai'r meini prawf gael eu cynnwys yn y Rheolau Sefydlog.</p>
<p>Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod y Bil yn cael ei ddiwygio yn unol â pharagraffau 44 i 46 o'r adroddiad hwn, sy'n cynnwys datganiadau yn cymeradwyo'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi a Phwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi.</p> <p>Y gwelliannau a gynigir ym mharagraffau 44-46 yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys i unrhyw fesur sy'n cynnwys gwneud polisi • Y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys i reoliadau a wneir o dan gymalau 7, 8, 9 a 17 sy'n diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth sylfaenol 46 • Y dylai Deddf Llywodraeth Cymru 2006 gael ei chynnwys yn y rhestr o ddeddfiadau yng nghymal 7(7) na ellir eu diwygio trwy gyfrwng rheoliadau 	<p>CYTUNO: Mae Llywodraeth Cymru'n credu, mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n ymwneud ag arfer a chraffu ar bwerau dirprwyedig, y dylai'r pwerau a'r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r rhai sy'n gymwys i Weinidogion y DU. Rydym yn cefnogi diwygio Bil Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn y ffordd a gynigiwyd gan CLAC (paragraffau 44-46).</p>
<p>Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell mai'r Pwyllgor hwn – y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Materion Deddfwriaethol - ddylai fod y pwyllgor sifftio ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol ac y dylid diwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â hynny.</p>	<p>CYTUNO O RAN EGWYDDOR: mater i'r Cynulliad yw hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y byddai'n briodol i CLAC ysgwyddo'r swyddogaeth hon. Er hynny, nid ydym yn credu bod angen diwygio Rheolau Sefydlog i adlewyrchu hyn.</p>
<p>Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell y dylai'r dull sifftio fod yn gymwys i reoliadau o dan Gategorïau 1, 2 a 3, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn, sef yr holl reoliadau a wneir o dan y Bil sy'n cynnwys darpariaethau datganoledig a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.</p>	<p>CYTUNO: Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y dylai'r mecanwaith sifftio fod yn gymwys i'r categorïau o reoliadau a nodir gan CLAC, er ei bod yn nodi'r heriau posibl mewn perthynas â chyd-reoliadau a rheoliadau cydamserol, lle y bydd pwyllgorau sifftio'r Cynulliad Cenedlaethol a</p>

Argymhelliad	Ymateb Drafft
<ul style="list-style-type: none"> • Categori 1: rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn gweithredu'n annibynnol gan ddefnyddio eu pwerau o ran Atodlen 2, a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unig; • Categori 2: rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU yn gweithredu ar y cyd o dan Atodlen 2, a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU; • Categori 3: rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU gan ddefnyddio eu pwerau cydamserol o dan Atodlen 2 a chymalau 7, 8 a 9 yn eu trefn) mewn rheoliadau cyfansawdd, a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU; • Categori 4: rheoliadau a wneir gan wneir gan Weinidogion y DU yn defnyddio eu pwerau o dan gymalau 7, 8, 9 a 17, a osodir gerbron Senedd y DU yn unig. 	<p>phwyllgorau sifftio Senedd y DU'n ystyried yr un set o reoliadau.</p>
<p>Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell y dylai'r weithdrefn gwneud cadarnhaol ar gyfer achosion brys hefyd gael ei chymhwyso mewn perthynas â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (boed a ydynt yn gweithredu ar eu pen eu hunain neu'n gweithredu gyda Gweinidogion y DU mewn perthynas â rheoliadau cyfansawdd, neu'n gweithredu gyda Gweinidogion y DU mewn perthynas â rheoliadau ar y cyd), a hynny er mwyn sicrhau bod gweinidogion o bob llywodraeth yn cael eu trin yn gyson.</p>	<p>CYTUNO : Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y gweithdrefnau cadarnhaol ar gyfer achosion brys fod ar gael mewn perthynas â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, i gyd-fynd â'r hyblygrwydd sydd ar gael i Weinidogion y DU ac yn gyson ag egwyddorion cysondeb o ran y ffordd y caiff Gweinidogion pob Llywodraeth eu trin.</p>



David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

16 Ebrill 2018

Annwyl *Mick,*

Ysgrifennaf atoch ar ôl ymddangos gerbron cyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 12 Chwefror i ystyried Bil Masnach y DU. Yn y pwyllgor cytunais i rannu dyddiadau cyfarfodydd o'r Gweithgor Ymadael â'r UE gydag aelodau eraill o'r pwyllgor. Cyfarfu'r Gweithgor Gadael yr UE ar y dyddiadau canlynol:

4 Hydref 2017
7 Rhagfyr 2017
24 Ionawr 2018
22 Mawrth 2018

Er gwybodaeth cyn i'r Gweithgor Ymadael â'r UE gael ei sefydlu roedd Brexit yn eitem sefydlog ar agenda Cyngor Datblygu'r Economi. Sefydlwyd y Gweithgor Ymadael â'r UE fel is-grŵp o Gyngor Datblygu'r Economi.

Yn gywir

Ken Skates AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswilt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh and any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon